

Cyngor Cymuned Y Fali Community Council

---

Clerc / Clerk Gwenda Owen [gwenda.owen1@ntlworld.com](mailto:gwenda.owen1@ntlworld.com)  
Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ (01407 740046)  
<http://www.valleycommunitycouncil.com>

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council Meeting  
7.00 y.h. / p.m. Nos Fercher / Wednesday 18.09.13

**1. Croeso / Welcome.**

- 2. Presennol / Present : Cyng/Counc.** C Torr, M Swaine Williams, H Wilson, S Roberts (Cadeirydd/Chair), G Browne MBE, C Furlong, K Taylor, D Walters, D Griffith  
Cyng Sir/County Coun G O Jones,

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Cyng /Coun R Dew, W R Rogerson, N Tuck

**3. Datganiad o ddiddordeb / Declaration of interest**

Dim wedi ei derbyn/Nil received.

- 4. Cofnodion cyfarfod 17.07.13/ Minutes of the meeting 17.07.13**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir. / *The minutes were accepted as correct.*  
Cynnig/Eilio MSW/GB Prop/Sec

- 5. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes 1707.13**

**5.1 Llwybr 8/Public Footpath 8**

2 lythyr wedi eu derbyn, copiau wedi eu gyrru 'mlaen eisioes./2 letters received. Copies forwarded previously.

Trydydd llythyr wedi ei dderbyn/Third letter received

'Roedd Mr Williams wedi cael sgwrs gyda un cynghorwr yn datgan na fyddai ganddo unrhyw wrthwynebiad i bobl ddefnyddio'r llwybr pe byddent wedi gofyn o flaen llaw. Clerc i adael i swyddogion hawl tramwy y Cyngor Sir wybod fod copiau ar gael ac mae bwriad y Cyngor Cymuned yw disgwyl am ganlyniad yr ymholiad cyhoeddus a gweithredu o fewn y penderfyniad a wnaed. Clerc i ysgrifennu at Mr Williams i gadarnhau hyn. /Mr Williams had entered into a conversation with one councillor, indicating that he would have had no object to people using the footpath if they had asked beforehand. Clerk to write to the Public Rights of Way Officer at the County Council to advise that copies of the letters were available and that it was the Community Council's intention to await the outcome of the public enquiry and then abide by the decision made. Clerk to write to Mr Williams confirming this. Cynnig/Eil CF/MSW Prop/ Sec

**5.2 Mynwent Llanynghenedl Cemetery**

Llythyr wedi ei dderbyn yn cadarnhau mae cyfrifoldeb Plwyf Bodedern yw'r fynwent./Letter received confirming the cemetery is responsibility of the Parish of Bodedern.

Yn dilyn trafodaeth cytunnwyd i ysgrifennu at Gorff yr Eglwysi yng Nghaerdydd a'r swyddfa ym Mangor yn gofyn iddynt ysgrifennu at Blwyf Bodedern i'w hybu mae nhw sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw mynwent Llanynghenedl./Following discussion it was agreed to write to the Provincial Church body in Cardiff and the Diocesan Office in Bangor, to request that they write to the Bodedern Parish to advise them that they are responsible for maintaining the Llanynghenedl Cemetery. Cynnig/Eil MSW/HW Prop/Sec.

5.3 Iechyd a diogelwch/Health and Safety – Mynwent Ynys Wen Cemetery (BR & DW)

Cytunnodd Cyng DW i drefnu'r archwiliad./Coun. D W agreed to arrange the inspection.

Mynegodd Cyng DW bryder fod gweithwyr ffordd yn defnyddio'r tap dwr yn y fynwent ac 'roedd wedi gofyn iddynt beidio gwneud hyn oherwydd y gost i'r Cyngor Cymuned./Councillor DW expressed concern that the highway workers were using the cemetery's water tap and he had asked them to refrain from doing this because of the cost to the Community Council.

5.4 Ceir yn cael ei gwerthu wrth y siop canws/Cars being sold by the canoe shop.

Ymateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau fod yr Ardal Briffyrdd ac Uwch Swyddog Gorfodaeth – Safonau Masnach yn delio gyda unrhyw fater oedd o fewn ei pwerau./Response received from the Highways Department and Senior Enforcement Officer – Trading Standards, confirming that they were dealing with all matters within their remit.

Nodwyd/Noted

5.5 Problemau parcio o flaen ardal y post hyd at y siop cigydd/Parking issues in the area from the front of the post office area to the butchers.

Ymateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau y byddai wardeniaid traffic yn ymweld a'r ardal./Response received confirming that traffic wardens would visit the area.

'Roedd ymateb wedi ei dderbyn oddiwrth Pennaeth yr Adran Priffyrdd a Rheoli Gwastraff yn cadarnhau fod eu swyddogion wedi cyfarfod gyda Chynghorydd G O Jones ar y safle a cytunnwyd y byddai'r Cynghorwr yn trafod yr angen am barcio yno gyda phobl lleol yn cynnwys y Cyngor Cymuned. Pe byddai cytundeb i dynnu'r bylchau parcio, a bod ardal oddeutu 40 m yn glir o geir wedi ei parcio, fe fyddai'r Cyngor Sir yn fodlon ceisio am gyllideb i wneud y gwaith. Mynnegwyd pryder ynglyn a phroblemau i bobl gyda bathodynau glas a'r effaith ar olau'n fflachio yn ffenestri trigolion yr ardal./A response had been received from the Head of Services – Highways and Waste Management confirming that his officers had met with Councillor Gwilym O Jones on the site and it had been agreed that the Councillor would discuss the need for parking with local representatives including the Community Council. Should it be agreed that the parking spaces could be removed and a length of approximately 40m kept clear of parked vehicles, then the Isle of Anglesey County Council would seek funding to carry out the works. Concern was expressed about problems this may cause to people with blue badges and also the possible effects of flashing lights in the windows of local residents.

Cytunnwyd i ofyn i aelod o'r Adran fynychu'r cyfarfod er mwyn cael mwy o wybodaeth ar y ffordd orau i symud ymlaen ac ymgynghori gyda phobl lleol./It was agreed that a request be made for a member of the Highways Department to attend a meeting in order to explain the best way to proceed and to consult with local people. Cynnig/Eil GB/MSW Prop/Sec.

6. Materion Plwyfol/Parochial Matters

1. Arriva Cymru Amserlen Rhagfyr 2013/Timetable December 2013  
Eisioes wedi ei gylchreded./Previously circulated.  
Nodwyd/Noted

2. Parc Mwd – Cyfarfod arbenning gyda chynrychiolwyr y clwbiau pel-droed./Special meeting with representatives of the football clubs.

'Roedd cofnodion o gyfarfod gyda chynrychiolwyr y clybiau pel droes eisioes wedi ei cylchredeg./Minutes of a previously held meeting held with representatives of the football clubs had previously been circulated.

Yn ystod y cyfarfod trafodwyd materion oedd angen eu cymeradwyo cyn y byddai modd gweithredu arnynt fel a ganlyn./During the meeting, matters were discussed which required approval before they could be acted upon, as follows:-

1. Gan na fyddai maes chwarae 3 yn barod tan gannol y tymor, cytunnwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn derbyn cyfrifoldebau cynnal a chadw tan tymor 2014/15. /As football pitch 3 would not be playable until the middle of the season, it was agreed that the Community Council would accept responsibility for its maintenance until the 2014/15 season. Dim gwrthwynebiad/No objection. Cynnig/Eil CT/HW Prop/Sec.

2. Gan nad oedd dim ymateb oddiwrth tim y merched, gofynnir caniatad i'r Tim Hyn gael cytundeb i chwarae ar Maes pel droed 2./As no response had been received from the ladies team, permission was sought to permit the Senior Team to play on football pitch 2. Dim gwrthwynebiad./No objection.Cynnig/Eil HW/MSW Prop/Sec.

3. Gofynnodd y clwb hyn am les hyd at Ebrill 2013 er mwyn rhedeg yn unol a'r gynghair, gyda thaliad am 9 mis yn lle blwyddyn./Senior Club requested that the new lease be for a period to April 2013 to coincide with the league, with payment to be made for 9 months. Cynnig/Eil HW/MSW Prop/Sec.

4. Gofynnodd y Clwb Hyn am les 5 mlynedd o 1af Mai 2014 er mwyn eu galluogi i geisio am grantiau. Dim gwrthwynebiad./Senior Club requested a 5 year lease from 1 May 2014 to enable them to bid for grants. No objection. Cynnig/Eil HW/MSW Prop.Sec.

5.Gofynnodd y tim iau pe byddai modd iddynt gael gweithio ar y darn o dir tu ol i maes chwarae 2 i er mwyn ei gaeli safon fyddai'n galluogi nhw i ddefnyddio'r tir ar gyfer hyfforddiant. Cytunnwyd hyd nes y byddai angen yr ardal er mwyn cael mynediad ar gyfer unrhyw brosiect newydd./The Junior Club asked whether they may be permitted to work on the piece of land behind pitch 2 to bring to playable standards for training purposes. Agreed until such time as the area may be required for access for any new project. Cynnig/Eil MSW/DG Prop/Sec.

6. Gofynnodd Mr B Rowlands , Rheolwr y Clwb Hyn a fyddai modd iddo gael caniatad i denuo'r mieri o gwmpas y meysydd pel droed gan eu bod yn colli peli ynddynt. /Manager of the Senior Club, Mr B Rowlands, requested permission to thin out the brambles around the football pitches as they lose their balls in them.

Cynnigion/Proposals:-

Cynnig rhoi caniatad i dorri mieri. /Proposal to permit the cutting of the brambles. Cynnig/Eil HW/KT Prop/Sec. Derbynniwyd/Accepted.

Cynnig peidio rhoi caniatad i dorri mieri gan eu bod yn gallu diogelu'r ardal./Proposal not to permit the cutting of the brambles as they can protect the area.  
Cynnig/Eil CT/Dim eiliwr. Prop/No seconder.

Cytunnwyd i'r clerch hybu Mr Rowlands. /Agreed that the clerk should advise Mr Rowlands.

### 3. Parc Mwd (CF)

- Gosod ramp gyrru/Erection of a speed ramp (CF)  
Clerc i gysylltu a'r Adran Briffyrdd./Clerk to contact Highways Department. Cynnig/Eil CF/CT Prop/Sec.
- Clirio bagiau Huws Gray/Clearance of Huws Gray Bags  
Cyn HW wedi cytunno i drefnu./Coun HW agreed to arrange.
- Torri coed wedi gor-dyfu tu ol i'r pafiliwn/Cutting overgrown trees to the rear of the pavilion.  
Clerc i gysylltu a G W Morris i drefnu./Clerk to arrange with G W Morris.
- Tori canghenion sydd wedi gordyfu ar y llwybrau a rhoi chwynladdwr i lawr./Cut overgrown branches on the paths and put weed-killer down.  
Clerc i gysylltu a G W Morris i drefnu./Clerk to arrange with G W Morris.

### 4. Sul yr Atgoffa/Rememberance Sunday

10.11.13 11.30 yb/a.m. Eglwys St Michael's Church, y Fali (WR)

10.11.13 12.45 yb Ynys Wen

Oddeutu 11.11.13 Cadeirydd a Cyng W Rogerson i ymweld a'r ysgol . Chairman and Councillor W Rogerson to visit the school.

Cytunnodd Cyng M Swaine Williams i ddarllen yn yr Eglwys. Cyng. S Roberts i drefnu ymweliad i'r ysgol gyda Cyng. Rogerson./Counc M Swaine Williams agreed to read at the Church. Coun. S Roberts to arrange to visit the school with Coun. Rogerson.

Caniatad i archebu wreaths/Permission to order wreaths. Cynnig/Eil HW/GB Prop/Sec

### 5. Cyflwr lonydd Penrodyn/Condition of the roads in Penrodyn.

Mynnegwyd pryder ynglyn a chyflwr y lonydd ym Mhenrodyn a Bryn Afon. Clerc i dynnu hyn at sylw Adran Briffyrdd a gofyn am amserlen./ Concern expressed regarding the conditions of the roads at Penrodyn and Bryn Afon. Clerk to draw to the attention of the Highways Department and request a timescale for when the resurfacing work would be undertaken. Cynnig/Eil MSW/SR Prop/Sec.

## 7 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref / Town and Country Planning

### 1. Ceisiadau/Applications

1. 49C4277K/TR/EIA/ECON Gwybodaeth Ychwanegol a Chynlluniau Diwygiedig/Additional Information and Amended Plans Land and Lakes Development.

Gwybodaeth eisioes wedi ei yrru ymlaen. Llythyr yn mynegi pryder eisioes wedi ei yrru /Information previously circulated. Letter raising concerns previously sent.

2. Cais Rhif /App No. 49C109C/Cais llawn ar gyfer codi annedd a modurdy ynghyd a gosod tanc septic a chreu mynedfa newydd ar dir ger/Full application for the erection of a dwelling and garage together with the installation of a septic tank and the construction of a new access on land adjacent to Lon Deg, Llanynghenedl.

Eisioes wedi ei gylchredeg. /Previously circulated. Ymateb wedi ei yrru – dim gwrthwynebiad. Response sent. No objection.

3. Cais Rhif/App No. 49C313 Cais llawn ar gyfer codi ystafell haul yn/Full application for the erection of a conservatory at The Chalet, Beach Road, Valley, LL65 3BN.

Dim gwrthwynebiad cyn belled a fod thrafodaeth gyda chymdogion./No objection subject to neighbourhood consultation. Cynnig/Eil HW/MSWProp/Sec

#### Penderfyniadau Cynllunio/Planning Decisions

1. Cais Rhif/App 49C166C Cais llawn ar gyfer codi uned diwydiannol newydd yn North Shore Yard, London Road, Valley/Full application for the erection of a new industrial unit at North Shore Yard, London Road, Valley.

Wedi ei ganiatau/Approved.

8. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn / Anglesey County Council Correspondence.

1. Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon 2006 Amserlen diwygiedigdrafft arfaethedig./Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan 2011 – 2026. Proposed draft revised timetable.

Nodwyd/Noted.

2. Deddf Rheoli Llifogydd a Dwr – Codi Ymwybodaeth o Berygl Llifogydd/Flood and Water Management Act – Raising Awareness of Flood Risk

Nodwyd/Noted.

9. Gohebiaeth Unllais Cymru

10. Materion Ariannol / Financial Matters

#### Manylion Cyfrifon / *Details of Accounts – Bank Balances* 26/07/13

Treasurer - £2504.80 Business Manager – £5576.38, Ynys Wen - £8360.37, Capital - £2065.84  
(Treasurer account - un-presented cheques £1429.65 actual funds available £ 1075.15)

Manylion Cyfrifon / *Details of Accounts – Bank Balances*  
26/08/13

Treasurer - £1796.78 Business Manager – £5576.38, Ynys Wen - £8360.37, Capital - £2065.84  
(Treasurer account - un-presented cheques £4576.34)

Precept of £7234 due end August and VAT Refund of £2651.47 due to be paid into Treasurer's Account)

Derbynwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali. / *Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations.. (Cynnig/Eilio GB/DW Prop/Sec.)*

11.	Taliadau i'w gwneud Awst/ Payments to be made August	
	Cyflog y clerc / Clerk' salary - Gorffennaf	£258.52
	Huws Gray	£233.45
	Adam Brown	£1241.40
	TJ & EJ Hughes Cleifiog	£2055.44
	G Owen Post	£10.50

Taliadau i'w gwneud Medi/Payments to be made September

	Cyflog y Clerc/Clerk's salary – Awst	£258.52
	HMRC	£193.80
	British Legion	£100.00
	G W Morris	£384.00
	GMS	£396.00
	H Hughes	£60.00
	Valley School	£50.00

Taliadau wedi ei cymeradwyo yn unol a phwynt 5.3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali./ *Payments approved in accordance with Section 5.3 of the Valley Community Council Financial Regulations. (Cynnig/Eilio GB/DW Prop/Sec.)*

12. Y Cynulliad / The Assembly

13. Gohebiaeth Amrywiol / Miscellaneous Correspondence

1. Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn/Anglesey and Gwynedd Partnership Cais i osod arwyddion "Ardal Di-fwg" yn y mannau chwarae /Request to place "Smoke Free Area" signs in the play areas.

Cytunnwyd i ysgrifennu yn caniatáu/Agreed to write to permit this. Cynnig/Eil HW/MSWProp/Sec.

2. Pwynt cyswllt newydd i'r Heddlu yn y Fali/ New Police contact point for Valley

Llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth yr heddlu yn cadarnhau bydd yr orsaf heddlu'n cau a bydd trefniant i gael SCCH lleol ar gael yn y man cyswllt newydd yn Neuadd yr Eglwys o mis Medi ymlaen. Mynnegwyd pryder nad oedd y safle yma'n addas ac efallai byddai 'r pafiliwn neu neuadd y Capel yn safle gwell. Clerk i dynnu sylw at hyn gyda'r heddlu ac ymateb i lythyr Rhun ap Iorwerth AM. 'Roedd pryder hefyd ynglyn a diffyg hysbysebu'r newidiadau./A letter had been received from the police confirming that the police station would close and arrangements made for the local PCSO's to have a new contact point in the Church Hall from September onwards. Concern was expressed that this site may not be suitable and that perhaps the pavilion or the Chapel Hall may be a better site. Clerk to write to draw this to the attention of the police and also respond to the enquiry from Rhun ap Iorwerth, AM. Concern was also expressed at the lack of advertising regarding these changes. Cynnig/Eil HW/MSE Prop/Sec.

3. Gwybodaeth Cludiant Cyhoeddus Gaeaf 2013/2014/ Public Transport Information Winter 2013/2014  
Nodwyd/Noted

4. Gwahoddiad i gyfarfod blynyddol Cyngor ar Bopeth 23.10.13 2. yh Clwb pel-droed, Lon Talwrn, Llangefni./Citizens Advice Bureau Annual General Meeting 23.10.13 2 p.m. Llangefni Football Club, Talwrn Road, Llangefni.  
Nodwyd/Noted

14. Unrhyw faterion arall.

1. Gwaith ar yr A5 o'r A55 hyd at y golau traffic/Work on the A5 between the A55 and the traffic lights. (GOJ)

Cadarnhawyd mae gwaith gosod palmant oedd yn mynd ymlaen./It was confirmed that work was taking place to provide a pavement.

2. Parc Branwen

Clerc i ofyn i GMS dorri'r glaswellt./Clerk to ask GMS to cut the grass. Cynnig/Eil MSW/SR Prop/Sec.)

3. Nadolig (HW)

Clerc i ysgrifennu at yr ysgol a trefnu gwobr o £50 am ddylunio'r cerdyn Nadolig gorau./Clerk to write to the school and arrange a £50 prize for the best Christmas card design. Cynnig/Eil HW/DG Prop/Sec.

14. Calendr/Calendar

15. Dyddiad Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting 16.10.13 7.00 y.h. /p.m.